



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Monitro dyfeisiau ynni'r llanw a rhyngweithio ag anifeiliaid y môr

Yn aml, mae angen monitro'r rhyngweithio rhwng anifeiliaid y môr a dyfeisiau ynni adnewyddadwy er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol i ddiogelu rhywogaethau, mae hefyd yn meithrin ein dealltwriaeth o ymddygiad anifeiliaid o amgylch dyfeisiau.

Mae deall rhyngweithiadau o'r fath yn sicrhau bod ein bywyd morol pwysig yn cael ei ddiogelu a gall ddatgloi potensial ynni adnewyddadwy ein moroedd, gan alluogi dull gofalus, fesul cam o gydsynio.

**Mae adolygiad o fethodolegau a thechnolegau monitro sy'n addas i'w defnyddio mewn amgylcheddau ynni uchel yng Nghymru** yn meithrin hyder yn ein galluoedd i fonitro rhyngweithiadau ac i weithredu, os oes angen, i ddiogelu anifeiliaid y môr rhag effeithiau sylweddol.

## Negeseuon allweddol yr adolygiad yw:



Gall monitro fod yn heriol ac yn gostus. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o dechnolegau sy'n addas i'w defnyddio yn nyfroedd Cymru i fonitro rhyngweithiadau.



Ymhlith y technolegau sydd ar gael mae hydroffonau i ganfod anifeiliaid lleisiol, megis dolffiniaid a llamhidyddion harbwr ac offer sonar sy'n gallu canfod morloi ac adar môr.



Ni ddylid anwybyddu materion ymarferol – mae defnyddio ac adfer technolegau monitro, storio a rhannu data yn ystyriaethau pwysig.



Mae heriau gyda'r amgylchedd ffisegol – mae technolegau'n aml yn cael eu defnyddio mewn cerrynt llanw cryf, ynghyd â gwelededd isel yn nyfroedd Cymru, sy'n golygu bod rhai dulliau monitro yn anodd.



Hefyd, mae rhydu o ddŵr môr a bolygru lle mae anifeiliaid yn setlo ac yn tyfu ar wrthrychau yn ychwanegu at yr her, gan ei gwneud yn ofynnol i offer monitro gael ei lanhau a'i gynnal gan ychwanegu at gostau'r prosiect.

**Neges hollbwysig a nodwyd gan yr adolygiad yw bod cyfleoedd yn bodoli i ddatblygu technolegau monitro i oresgyn heriau a gwella ein gallu i fonitro ymddygiad anifeiliaid a chanfod unrhyw risg o wrthdrawiadau rhwng anifeiliaid y môr a dyfeisiau ynni adnewyddadwy morol.**